# DINESYDD

## Mawrth

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1985

RHIF 114


# PENBLWYDD HAPUS

DATGANIAD WYTHNOS CYMRU DDI-NIWCLEAR 1985

"Mae crynhoi arfau, yn arbennig felly arfau niwcliear, yn fwy o fygythiad o lawer y dyddiau hyn nag ydyw o amddiffyniad i ddyfodol dynoliaeth." (Y Cenhedloedd Unedig) Os medrwn dderbyn hyn, yna gallwn ymuno â'n gilydd, beth bynnag fo'n safbwynt gwleidyddol, ein crefydd neu'n diwylliant, i wrthod ein caniatad i gynhyrchu, pentyrru, arbrofi, defnyddio neu fygwth defnyddio pob arf niwclear.

Rydym ni, bobl Cymru, am ddatgan ein dymuniad diffuant i gyd-fyw'n heddychlon a chydweithredu â phobl o bob cenedl. Ein gobaith yw medru cydnabod a pharchu'n fwy yr hyn sy'n gyffredin rhyngom, ynghyd â'r gwahaniaethau, gan wybod ei bod yn bosibl i ni'r Ewropeaid, fel holl bobl y byd, fyw mewn goddefgarwch a chyd-ddealltwriaeth yn hytrach nag mewn ofn cyson o ryfel niwclear.



MAE'N DAIR MLYNEDD ers i Gynghorau Sir Cymru ddatgan bod Cymru yn wlad ddi-niwcliar. Ac er mwyn dathlu'r achlysur mae CND Cymru wedi anfon y datganiad uchod o ewyllys da o Gymru i'r byd.

Mewn rali genedlaethol yn Neuadd y Ddinas ar Chwefror 24, cyflwynwyd posteri lliwgar o'r datganiad yn dwyn llofnodion cynrychiolwyr y Mudiad heddwch drwy Gymru benbaladr i gynrychiolwyr grwpiau heddwch y siroedd ac i gynrychiolwyr o wledydd eraill. Ac anfonwyd copiau i bob gwlad yn Ewrop - gorllewin a dwyrain.


Yn dilyn gorymdaith drwy strydoedd y ddinas, daeth dros fil o bobl ynghyd i wrando ar areithiau gan Joan Ruddock, Cadeirydd CND Prydain, Dafydd Elis Thomas A.S., Gronw ap Islwyn, Cadeirydd CND Cymru, Tony Schiavone ac eraill. Ac ar waethaf ymyrraeth parhaol gan grwp o anarchwyr - y mwyafrif helaeth ohonynt o Loegr - cafwyd sawl araith pwrpasol.

Prif thema'r rhelyw o'r siaradwyr oedd yr ymarfer amddiffyn siful WINTEX, a gynhelir rhwng Chwefror 26 a Mawrth 13, a'r datgeliad a wnaed yr wythnos honno bod MI5 yn tapio ffôns ac yn cadw ffeiliau ar aelodau blaenllaw o'r mudiad heddwch.

Pan wnaed y datganiad bod Cymru yn wlad ddi-niwclear ar 23 Chwefror 1982 ymateb Nicholas Edwards, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, oedd mai cystal fyddai cyhoeddi ein bod yn wlad ddi-bechod. Ond neges Joan Ruddock, a siaradodd am yr ail waith yn Undeb y Myfyrwyr, oedd bod datganiadau o'r fath yn effeithiol. Yn sicr, ystyrir y sefyllfa yn un ddifrifol gan y llywodraeth a gyflwynodd ddeddfwriaeth newydd gerbron y Senedd i orfodi cynghorau i gydweithredu mewn ymarferion amddiffyn siful, ac mae gwrthodiad diweddar llywodraeth Seland Newydd i gydweithredu a llynges yr Unol Daleithiau wedi dangos yn glir yr hyn sy'n bosibl i'w gyflawni.

Amcan CND Cymru yn awr yw ceisio dwyn perswad ar awdudodau lleol i gymeryd eu datganiadau o ddifri, a cheisio symud holl safleodd niwclear-filwrol oddi ar dir Cymru.

# APÊL GŴYL DDEWI



DYLETSWYDD PAPUR BRO Prifddinas Cymru yw dathlu Gŵyl ein nawdddsant Dewi, a dylai'r ddyletswydd honno fod yn un bleserus. Yn anffodus anodd yw hi i'r criw ffyddlon sy'n brwydro o fis i fis i ddod â'r Dinesydd allan weld achos i ddathlu.

Dal yn wag y mae ein coffrau. Teimlwn bod cryn lewyrch ar gynnwys a diwyg y papur, ac mae'r ymateb a gawn gennych chi'r darllenwyr yn bur ffafriol ar y cyfan. Ond ychydig dros £50 sydd yn y banc, ac fe ddaw bil oddeutu £300 yn fuan am y rhifyn hwn.

YDY MAE HI'N COSTIO £300 Y MIS i gyhoeddi'r Dinesydd. Penderfynodd y Pwyllgor Rheoli felly mae'r unig ffordd y gallwn ni ddathlu Gŵyl Ddewi eleni yw lansio APEL GŴYL DDEWI Y DINESYDD. Dyma'r unig bapur bro Cymraeg a ddosberthir yn rhad ac am ddim - beth dybiwch chi yw ei werth bob mis - a beth a olyga hynny y flwyddyn?

Mae nifer fechan, ffyddlon a hael iawn eu cefnogaeth - a diolchwn i chi. A oes modd dwysbigo'r gweddill ohonoch, sef mwyafrif llethol y darllenwyr, i sicrhau nad suddo i'r machlud a wna'r Dinesydd o gofio mai arwyddair ein dinas yw DEFFRO MAE'N DDYDD?

## TU MEWN:


Tud 3. Nawdd Newydd i'r Sherman

Tud 6. Merched Caerdydd

Tud 9. Adolygu "When Was Wales?"

Tud 10. Rhodri Gwyn ar Rygbi?!

# GOLYGYDDOL

PAN GYHOEDDWYD y rhifyn cyntaf o'r cylchgrawn CURIAD ym mis Awst 1978, roedd barn y Golygydd ar fater nawdd i gylchgrannau Cymraeg yn groyw a digyfaddawd:

"Ni dderbynia CURIAD yr un grant ariannol. Ni wnaed cais am gymorth. Ymhyfryda CURIAD ei fod yn llwyddiannus hunan-gynhaliol.... Ni wrthwynebir yr egwyddor o gynnig grantiau i gylchgronnau a phapurau i alluogi eu gosod ar eu traed. Ond gwrthwynebir sefyllfa lle bo cynnwys pwrs di-waelod Cyngor y Celfyddydau yn gymorth rhy hawdd i'w gael mewn cyfyngder.....Ofnir bod anrhegion ariannol blynyddol yn arwain at ddiogi dosbarthu, cynllunio diwyg, denu hysbysebion, a marchnata."

Bellach cyhoeddwyd 34 o rifynnau, nifer helaeth ohonynt gyda chymorth ariannol y Cyngor Llyfrau Cymraeg.

Ond penderfynodd y Cyngor i ddwyn y nawdd a roddwyd i CURIAD a'r CYLCHGRAWN EFENGYLAIDD i ben. Mae'r penderfyniad yn siwr o ddenu ymateb beirniadol, ond y gwir amdani yw ei fod yn benderfyniad doeth a dewr.

Ni ellir collfarnu cyhoeddwyr CURIAD o'r diogi a gyfeiriwyd ato yn y dyfyniad uchod, ond y gwir plaen yw nad yw CURIAD, er yn llanw bwlch ym myd cylchgronnau Cymraeg, ddim yn ateb unrhyw alw gwirioneddol. Dengys y ffigurau cylchrediad nad oedd yn gylchgrawn poblogaidd.

Mae'r un yn wir am y CYLCHGRAWN EFENGYLAIDD, sy'n ddim amgen na chylchgrawn mewnol i sect grefyddol, nad yw'n goddef unrhyw farn heblaw ei ddogma ei hun.

'Dyw pwrs y Cyngor Llyfrau Cymraeg ddim yn ddi-waelod, ac ni fyddai'r Cyngor yn cyflawni'i briod waith pe bai'n parhau i noddi pob cylchgrawn Cymraeg heb ystyried os oes galw amdanynt. Gwell o lawer fyddai ail-ddosbarthu'r cyllid sydd ar gael ymhlith cylchgronnau sydd â'u cylchrediad ar i fyny, a chynyddu'r cymorth a roddir i gyhoeddiadau gwirioneddol boblogaidd - y papurau bro.

---

DIOLCH AM gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.

---

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Ebrill at: Shan Emlyn, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd,CF5 6JD erbyn MAWRTH 21.

---

MAE BWRDD Golygyddol y Dinesydd yn cadw'r hawl i dalfyrru unrhyw erthyglau neu lythyrau sy'n cael eu cyhoeddi yn y papur.

# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr Y Dinesydd at:
Lynn Jones Ffôn: 562816

MAWRTH

1 - CYMRODORION CAERDYDD
Neuadd U.W.I.S.T. 7.15
Cinio Gŵyl Ddewi.

1 - CLWB IFOR BACH
Noson Lawen Gŵyl Ddewi - Cawl a chân.

2 - CLWB IFOR BACH
Yr Alban V Cymru ar y teledu
Geraint Griffiths a'r Band.

4 - CLWB IFOR BACH
Disgo penblwydd yr ysgrifennydd - bar hwyr a chroeso i bawb!

6 - CYMDEITHAS GYMRAEG BRO RADUR
Noson Gŵyl Ddewi yng Nghlwb Golff Radur 7.30.

8 - YSGOL FEITHRIN LLANDAF
Ffair Sbarion yn Festri Salem, Canton 6.30

8 - CYMRODORION CAERDYDD
Ysgol Glantaf 7.15
Cyngerdd gan blant yr ysgol.
Arweinydd: Alun Guy
Cadeirydd: Dr.Gwynfor Jones

9 - CLWB IFOR BACH
Y Ficar

10 - CAPEL DERWEN DEG
Oedfa Anenwadol 4.00
Parch.Lona Roberts

11 - CYMRY'R EGLWYS NEWYDD
Festri Capel y Methodistiaid Velindre Road, Yr Eglwys Newydd. 7.30.
Dathlu Gŵyl Dewi
Gŵr Gwadd: Arfon Williams

11 - MERCHED Y WAWR
Festri Minny St. 7.30.
Dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Côr Tannau Taf.

13 - CYMDEITHAS Y DYSGWYR
Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon. 8.00

14 - Y GYMDEITHAS WLEIDYDDOL
Clwb Ifor Bach
"Pam Diarfogi Niwcliar?"
Ann England, Aberfan.

15 - CLWB IFOR BACH
4 yn y Bar - lolfa isaf
Crys - bar uchaf

16 - CLWB IFOR BACH
Cymru V Iwerddon ar y teledu
Treiglad Pherffaith

27 - CYLCH CINIO BARRI A'R FRO
Gwestai: David Meredith,HTV.

30 - CLWB IFOR BACH
Ffrainc V Cymru ar y teledu

EBRILL

1 - MERCHED Y WAWR
Festri Minny St. 7.30.
Cyfarfod Cyffredinol
Cwis llyfrau

5 - CYMRODORION CAERDYDD
Festri Minny St. 7.15
Ymweliad Cymrodorion Y Barri

10 - CYMDEITHAS Y DYSGWYR
Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon. 8.00

14 - CAPEL DERWEN DEG
Oedfa Anenwadol 4.00
Parch.Leslie Evans

20 - CLWB IFOR BACH
Cymru V Lloegr

20 - CERDDORFA SIAMBR CAERDYDD
Eglwys Gadeiriol Llandaf
Arweinydd: William Salaman
Unawdydd: David Norton
Cerddoriaeth gan Elgar, Rawsthorne a Beethoven.

# GAIR O'R POST

Tremle
28 St.George's Road
Y Mynydd Bychan

Annwyl Dinesydd,

'Does dim disgwyl cael rhywbeth am ddim - os e?

Ers mitin 'rwyf wedi bwriadu rhoi cyfraniad bach i'r Dinesydd. 'Rwy'n falch ohonno a diolch i bawb sy'n rhoi eu hamser a'u hymdrechion i ni gael papur bro yma yng Nghaerdydd.

'Does dim angen i chwi gydnabod y swm fechan hon; gan mai siec yw, byddaf yn gwybod yn iawn eich bod wedi ei derbyn.

Gyda llawer o ddiolch,
Eirwen Davies.

---

CYLCH CINIO MERCHED CAERDYDD
Bydd y cylch yn cyfarfod i ddathlu Gŵyl Ddewi, ychydig yn hwyr, nos Iau, Mawrth 14eg am 7.30 yng ngwesty'r Phoenix, Heol Fidlas, Llanishen. Ein gwesteion fydd Meredydd Evans a Phyllis Kinney a gobeithwn weld tyrfa fawr yn dod yno i'w croesawu. Cofiwch, mae yna groeso i bawb - does dim rhaid ymaelodi.
Ffoniwch, os gwelwch yn dda at:
Kit Boobier (Cadeirydd) 487276
neu Marian Jones 594378
neu Nia Hall Williams 752755.
Cawn gyfle i sgwrsio am hanner awr cyn bwyta am wyth. Pris y swper yw £6.

## Carcharu dau – a'r ymgyrch yn parhau

WRTH I FARNWR garcharu dau aelod o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yn Llys y Goron, Caerdydd, ar Chwefror 12, roedd aelodau eraill o'r Gymdeithas wrthi'n parhau'r ymgyrch dros Gorff Datblygu Addysg Gymraeg.

Yn dilyn achos a barodd deuddydd, cafwyd Meinir Ffransis, 34 oed o Lanfihangel-ar-Arth, Dafydd Lewis, 31 oed, a Lleucu Morgan, 20 oed, ill dau o Aberystwyth, yn euog o dorri i mewn i swyddfa'r blaid Geidwadol Gymreig yn yr Eglwys Newydd a pheri gwerth £5,000 o ddifrod i offer swyddfa ar Hydref 22 y llynedd.

Dedfrydwyd Ffransis a Lewis i ddeuddeg mis o garchar - naw mis ohono wedi'i ohirio - a gorchmynwyd i Morgan ymgymryd â 100 awr o wasanaeth cymuned.

Ond yn fuan wedi i'r achos orffen roedd dau aelod arall o'r Gymdeithas wedi'u harestio ym Mrynbuga, Gwent, yn dilyn gweithred debyg yn swyddfa John Stradling Thomas A.S. - y gweinidog yn y Swyddfa Gymreig a chanddo gyfrifoldeb am addysg.

Cyhuddwyd Llinos Angharad Williams, 20 oed o Gaerdydd, a Llinos John, 21 oed o Grymych, ill dwy yn fyfyrwyr yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth, o fwrgleriaeth ac o achosi difrod troseddol. Fe'i rhyddhawyd ar fechniaeth a byddant yn ymddangos o flaen Llys Ynadon Brynbuga ar Fawrth 25.

Hyd yma, cymysg fu'r ymateb i'r alwad am sefydlu corff newydd i arolygu holl agweddau addysg Gymraeg. Cafwyd cefnogaeth gan nifer o athrawon ac addysgwyr blaenllaw, ynghyd â rhai awdurdodau addysg. A chafwyd cefnogaeth mewn egwyddor gan un o is-bwyllgorau'r Cyd-Bwyllgor Addysg, ond barn aelodau'r Cyd-Bwyllgor oedd mai'r nhw ddylai wneud y gwaith.

Cytunodd y Swyddfa Gymreig i gymryd cyngor gan gyrff addysgol ar y mater, ond ni chafwyd ymateb pellach, a gwrthodwyd ceisiadau'r Gymdeithas am gyfarfodydd pellach.

Ar Chwefror 14 cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig byddai £1.3 miliwn ar gael yn ystod 1985-86 ar gyfer addysg Gymraeg. Mae hyn yn gynnydd o'n agos i £400,000, ond yn ôl llefarydd ar ran y Gymdeithas, doedd y cyfanswm yn "ddim mwy na phiso dryw yn y môr o'i gymharu â'r hyn yr oedd ei angen i sicrhau dyfodol llewyrchus i addysg Gymraeg".

# NAWDD NEWYDD I'R SHERMAN

AR ÔL MISOEDD o ansicrwydd ynghylch ei dyfodol, mae'n ymddangos y bydd Theatr y Sherman yn cadw ei drysau'n agored, am flwyddyn arall o leiaf. Mae'r awdurdodau lleol wedi cytuno, hyd yma'n answyddogol, i gyfrannu at gostau rhedeg y theatr.

Y datblygiad diweddaraf yn saga cyllid y Sherman yw fod Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor De Morgannwg yn barod i ddarparu £15,000 yr un i'r theatr ym mis Mawrth 1986. Dyna'r dyddiad y bydd nawdd presennol y Sherman oddiwrth Cyngor y Celfyddydau yn dod i ben.

Mae Sue Wilshere, rheolwr y Sherman, yn croesawu'r newydd. Dywed fod penderfyniad yr awdurdodoau yn galonogol am iddo gydnabod pwysigrwydd y theatr ym myd adloniant a chelfyddyd y ddinas.

Cyn i'r awdurdodau gytuno i ymyrryd er mwyn cadw'r Sherman yn agored, edrychai ei dyfodol yn ddu.

Pan agorodd ym 1973, cytunwyd i rannu ei chostau yn gyfartal rhwng Coleg y Brifysgol a Chyngor y Celfyddydau. Ond yn raddol mae'r Cyngor wedi gostwng ei gyfraniad, gan drosglwyddo'r baich ariannol yn gynyddol ar y coleg.

Erbyn hyn mae dyledion y theatr mor fawr fel na all y coleg barhau i gario'r baich. Pan hysbysodd Cyngor y Celfyddydau haf ddiwethaf na fyddai'n rhoi ceiniog yn rhagor ar ol Mawrth, 1986, doedd gan y coleg ddim dewis ond cau'r lle - onibai y deuai o hyd i noddwr arall.

SHERMAN

Oddiar hynny mae swyddogion y theatr wedi bod yn cyfarfod yn gyson â'r awdurdodau lleol i geisio ennill eu cefnogaeth.

Datblygiad arwyddocaol oedd penderfyniad Cyngor y Celfyddydau yn Ionawr i leoli cwmni theatr parhaol yn y Sherman. Cynigiodd grant o £125,000 i gynnal y cwmni newydd trwy ail hanner y flwyddyn hon, a £250,000 am y ddwy flynedd nesaf.

Ond roedd yr arian yma i'w ddefnyddio'n unig i dalu am y cwmni, ac nid i gynnal yr adeilad. Ar ben hynny, pwysleisiodd y Cyngor y byddai'r arian ar gael ar un amod, sef bod y theatr yn llwyddo i sicrhau ei dyfodol trwy ddod o hyd i nawdd o gyfeiriad arall, a hynny erbyn Rhagfyr 1985.

Y tebygolrwydd yw fod hyn wedi gosod pwysau ychwanegol ar yr awdurdodau i ymyrryd. Os fyddent wedi gwrthod noddi'r theatr, yna nid yn unig byddai'r lle'n gorfod cau ond byddent yn colli'r cyfle i sefydlu cwmni theatr newydd (ynghyd â swm sylweddol o arian) yn y brifddinas.

Nawr, unwaith iddi dderbyn gadarnhad ffurfiol gan yr awdurdodau fod y £30,000 ar y bwrdd, medr Sue Wiltshere ddechrau cynllunio rhaglen y flwyddyn nesaf.

Dywed y bydd bodolaeth y cwmni newydd yn rhoi mwy o ryddid i ddethol dramau amrywiol a phoblogaidd. Ei gobaith yw gweld mwy o ddramau newydd modern yn dod i lwyfan y Sherman, yn ogystal â'r clasuron. Bydd rhaglen y cwmni yn agor ym mis Hydref.

DELYTH EVANS.


**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

TAFLEN

LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.

Ar agor tan 7 o'r gloch (5 ar ddydd Sadwrn)

CYFARCHION POB HWYL I
GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD

CYMRU HTV

**Y Gorau yn Gyson i Gymru**

## Cynhyrcha HTV Cymru amrywiaeth mawr o raglenni teledu ar gyfer S4C

Daw ein rhaglenni o bedwar ban y byd yn ogystal ag o Gymru – o'n canolfannau teledu yng Nghaerdydd a'r Wyddgrug, a thrwy gyfrwng ein hunedau, ein cynhyrchwyr a'n cyflwynwyr, ym Mangor a Chaerfyrddin. Ymunwch â'r Cyffro Teledu drwy raglenni

CYMRU HTV ar **S4C**

**Y Gorau yn Gyson i Gymru**

# Colofn Shân Emlyn

BORA SUL DWYTHA 'r o'n i'n gwrando ar Oedfa'r Bore ar y radio efo mwy o ddiddordeb nag arfer, gan 'i bod hi'n cael ei darlledu o'r hen Benmount, Pwllheli. Roedd gwrando fel gwibdaith i'r gorffennol. Medrwn weld yr organ hardd yn fy nychymyg a chofio fel y byddwn yn blentyn, a'r bregeth weithiau'n faith, yn cyfri pibau'r organ, o'r dde i'r chwith, o'r chwith i'r dde. Yn y rhes flaen yr oedd ein set ni fel teulu, ac yng nghegin Coed y Pry gallwn ddal i weld y patrwm ar goedyn y set fawr - ambell un fel pen dyn, un arall fel coeden afrosgo, yna cyfri'r blodau cerfiedig o gwmpas panelau'r pulpud. Peth rhyfedd ydy'r synhwyrau ynte - yng nghanol ogla cig eidion, tatws, ffa a moron - oedd roedd ogla Penmount yno hefyd.

Efallai bod fy synhwyrau'n fwy effro nag arfer am ddau reswm. Yn y lle cynta mi fum i ym Mhenmount fis Tachwedd, ac wrth gerdded ar hyd y llwybr tywyll i'r festri, ogla'r capel a'm trawodd i gynta' - ogla yr o'n i'n 'i adnabod mor dda ac eto heb feddwl am y peth ers blynyddoedd maith.

Wrth droi'r grefi ddydd Sul, daeth fflachiadau o'r trafodaethau a glywais yn eglwys gadeiriol Llyn i'r cof. Cofiais y Parchedig Morgan Griffith, fy arwr, yn ein priodi. Wedi i Owen roi modrwy ar fy mys, ar draws y gwasanaeth daeth llais Mr.Griffith "Sgin ti ddim un iddo fo?" "Na, tydi o ddim isio un", medde finne! Yna ymhen rhai blynyddoedd fy chwaer yn priodi yno a hynny'n fuan wedi inni golli ein mam, a Mr.Griffith ar ei weddi yn deud, yn dlws o gynnil: "Cofia am yr un sy'n edrych arnom ni dros y canllawia heddiw, i fyny'n y fan 'na".

Dyma fi'n sgwennu'r pwt yma tra'n hanner gwrando ar Meurwyn ar y Newyddion Da ac emyn ar y don Finlandia yn cael ei chanu. A nôl â fi unwaith eto i Benmount. Finlandia oedd hoff alaw'r Parchedig Tom Nefyn. Cofiaf ef yn dod i Benmount ac ar ganol ei bregeth ehedodd aderyn bach o gwmpas galleri'r capel. Estynnodd Y Parchedig Tom Nefyn ei fraich a'i law allan gan ddweud: "Aderyn y to hefyd a gafodd dy ....", ac fel petae'n deall fe laniodd yr aderyn ar gledr 'i law.

Ar ail reswm am gynnwys y golofn y mis yma? Efallai bod a wnelo'r ymdrabaeddu yma yn y gorffennol rhywbeth a'r cyd-ddigwyddiad bod yr oedfa o Benmount ddeuddydd ar ôl i mi ddathlu (os dyna'r gair hefyd!) fy mhenblwydd. Diwrnod y mae hi'n naturiol i un edrych yn ôl dros y blynyddoedd.

Do, mwynheais yr egwyl ym Mhenmount. Ond be' sydd wedi digwydd i ganu cynulleidfaol Pen Llyn? Roedd y canu'n raenus iawn - ond ymron i gyd yn UNSAIN. CHWITH, CHWITH!

---


**COLEG PRIFYSGOL CYMRU ABERYSTWYTH**

**GRADDAU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG I FYFYRWYR ALLANOL**

Mae'r Coleg yn cynnig cynllun gradd BA Prifysgol Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr allanol, a gwahoddir ceisiadau am le o fewn y cynllun yn Hydref 1985. Bydd myfyrwyr allanol yn dilyn cyrsiau yn y pynciau a ganlyn:

RHAN 1 Tri phwnc o blith ADDYSG, ASTUDIAETHAU CREFYDD, CYMRAEG, DRAMA (ASTUDIAETHAU THEATR), HANES CYMRU, LLYDAWEG, CERDDORIAETH

RHAN 2 Anrhydedd Sengl mewn CYMRAEG
neu
Anrhydedd Cyfun mewn dau o'r canlynol:
ADDYSG, CYMRAEG, DRAMA, HANES CYMRU, CERDDORIAETH

Cynigir cynhorthwy arbennig i fyfyrwyr allanol drwy ohebiaeth a chyswllt personol rheolaidd. Darperir nodiadau a chanllawiau manwl ar y cyrsiau, ynghyd â darlithiau ar gaset mewn rhai pynciau.

Astudir Rhan 1 dros 1-3 blwyddyn yn ôl dewis y myfyriwr. Bydd Rhan 2 yn estyn dros 4 blynedd fel arfer.

Gellir cael manylion am y cynllun a ffurflenni ymgeisio oddi wrth Hywel W Jones, Uwch-Ysgrifennydd Cynorthwyol, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Gwahoddir ceisiadau erbyn 12 Ebrill 1985.


## 'ydych chi'n llanc ....?'

ERS TALWM, roedd 'na hysbyseb yn ymddangos y tu mewn i drenau tan-ddaearol Llundain yn dechrau gyda'r cwpled anfarwol:

"Are you a Girl who's engaged
to an Earl,
Or a Miss with a Mission
in Life?"

Bwriad y llinellau oedd hysbysebu'r cylchgrawn "Punch" gyda'r awgrym, mae'n debyg, bod ynddo fo rhywbeth i blesio pawb - o ba bynnag lliw, llun a chyflwr priodasol. Dwn i ddim sawl merch yng Nghaerdydd sy' heddiw yn perthyn i gategori'r llinell gynta' (er bod 'na ddigon yn yr ail, mae'n siwr) ond, 'falla, ei bod hi'n hen bryd i'r Dinesydd ddechrau hysbysebu ei hun ymhlith Cymry Cymraeg y ddinas yn yr un modd. Beth am:

"Ydych chi'n Llanc sy'n
gweithio'n y Banc
Neu'n foi sy'n ymdroi yn y
Clwb?"

Beth bynnag am hynny rydym yn gwybod bod darllenwyr y Dinesydd yn gweithio ymhob math o wahanol feysydd - rhai ohonyn nhw mewn swyddi anarferol, allan o'r cyffredin sy'n golygu, er enghraifft, gweithio oriau anghymdeithasol neu'n galw am ddoniau neu sgiliau arbennig. Os ydych chi mewn swydd o'r math, wnewch chi roi gwybod inni? Byddwn yn falch iawn o gynnwys peth o'ch hanes yn rhifynnau nesaf eich papur bro.

# MERCHED CAERDYDD

MERCHED CAERDYDD yn cael gweledigaeth,yn derbyn her,yn gwireddu'n breuddwydion.

MAE'N DEG BOD papur bro fel y Dinesydd yn nodi ymdrechion glew ar ran amryw o'r dinasyddion ac yn eu hanrhydeddu. Wele lywydd ein papur bro ni - mae dioddordebau Shan Emlyn a'i chyfrifoldebau yn ddibendraw - ond mae wedi dewis dodi'i hysgwydd dan y baich o gynhyrchu cofnod i'r dyfodol o'n bywyd ni yma yng Nghaerdydd - cofnodi Cymreictod ein bro a wna'r papur hwn a ryn ni am ddiolch iddi hi am ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn ynghyd â diolch i'r pwyllgor ymroddedig.



PAM NAD YW'R cyfryngau wedi dewis nodi'r ffaith, yr Eglwys yn Lloegr yn cael y fath drafferthion dirdynol i ordeinio gwragedd, Rabbi newydd o wraig yn dod i blith Iddewon Caerdydd, mae'n deg inni ymfalchio bod y Gymraes gyntaf i'w hordeinio inni'r Cymry Cymraeg yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn dod o Gaerdydd. Lona Roberts yw ei henw. Gweithiwr cymdeithasol oedd Lona, trydedd merch Gwyn ac Annie Daniel, wedi'i geni a'i magu yng Nghaerdydd nes iddi sylweddoli'r angen mawr am fugeiliaeth ysbrydol ac am weinidogaeth oedd arnom ni, y Cymry Cymraeg. Nid peth hawdd oedd magu tri o blant a gwneud cwrs B.D. yn y Brifysgol na chwaith mynd i Aberystwyth i wneud cwrs Pastoralia. Dyna a wnaeth erch hynny ac ar hyn o bryd mae'n weinidog ar bedair eglwys yn y Rhondda - Pisga, Penygraig; Seion, Trealaw; Clafaria'r Porth a Bethania, Llwynypia. Mawr yw ei braint a'r cyfrifoldeb "Cadwn y mur rhag y bwystfil, Cadwn y ffynnon rhag y baw." Gall blodau dyfu yn "anialwch sment" y ddinas a hwythau'n ran o werin bendefigaidd Duw.

BLODYN ARALL a dyfodd yn "anialwch sment" Caerdydd yw Eirlys Ashton. Ganwyd hi yn 8,Pitman St., yn chwaer i Gwenda Ffransis, "Davies" gynt. Roedd mam a thad Eirlys a Gwenda ymhlith y cyntaf i fentro i anfon eu plant i Ysgol Gymraeg Caerdydd draw yn Sloper Rd., Grangetown. Mae'r un rhoddion a'r menter yn Eirlys mae'n amlwg gan ei bod hi a un o rieni brwd eraill yng Nghwm Rhymni yn brwydro i gadw'r egwyddor o agor ysgolion Cymraeg yng Nghanol Morgannwg yn hytrach nag agor unedau Cymraeg oddi fewn i ysgolion Saesneg eu cyfrwng. Mae'r rhieni brwd yma yn ofni awyrgylch swyddogol Seisinig yr ysgolion hyn a'r ffaith y gall prifathrawon hollol ddi-Gymraeg gael eu hapwyntio. Yn wyneb ystyfnigrwydd yr Awdurdod Addysg i dderbyn eu barn mae'r rhieni wedi agor ysgol wirfoddol eu hunain ac Eirlys Ashton yw'r athrawes. Mae angen dur yn y cymeriad i sefyll fel hyn fel nad yw addysg plant bach Cwm Rhymni yn cael ei lesteirio. Llongyfarchiadau iddi hi ac i'r rhieni eraill.



WYNEB LLAI ADNABYDDUS i ni bobl Caerdydd yw wyneb Angharad Roberts, ond ni fydd yn anadnabyddus yn hir.

Ymddangosodd yn sydyn heb i neb ohonom sylweddoli ei bod yn dod. Cafodd ei hapwyntio gan y Swyddfa Gymreig a'r Eglwysi i hyrwyddo a datblygu ysgolion Sul yn ardal Caerdydd a'r cyffiniau. Mae wedi bod wrthi nawr ers mis Ebrill yn cefnogi'r ysgolion Sul lleiaf, ymsefydlu dosbarth ysgol Sul i blant dan anfantais, yn ein hannog i ddatblygu'n meysydd llafur trwy fynd ar gyrsiau, rhai yn Lloegr, i sylweddoli beth yw'r datblygiadau cyffrous sy' dros Clawdd Offa, mae wedi trefnu cyrsiau i ni yng Nghaerdydd ac yn ystod hanner tymor ar ddydd Iau bydd mini-Olympics rhwng yr ysgolion Sul yn yr ardal. Ble bynnag y gwelwch yr angen am agor ysgol Sul a'r amser wedi dod i wneud hynny, cysylltwch ag Angharad ac fe fydd yn gefn i chi yn eich gwaith ac o wir help ymarferol.

Buodd Pwyllgor Cyd-Enwadol yr Ysgolion Sul yn yr ardal yn dyheu am weld apwyntiad tebyg i hwn ac fe ddaeth Angharad. Bu'n genhades yn yr India, yn Affrica ac tn Samoa cyn hyn. Gyda dathlu dau gan mlwyddiant yr ysgolion Sul mor agos fe welodd yr her o ail-gynnau tan dros ysgolion Sul yn ein plith.



MARY WILIAM YW HON. Bu'n amlwg iawn ar y teledu yn cyflwyno "Heddiw" yn ei thro ond ryn ni am ei hanrhydeddu am wneud gwaith llai amlwg ond gwerthfawr tu hwnt i blant a mamau ifanc. Gwelodd yr angen am lyfr Cymraeg i fod yn gymorth ymarferol i'r fam "ddi-brofiad ac ofnus" -'a dyna ni'n "Magu'r Baban". Mae'n ddifyr i bob mam ei ddarllen, ac yn hawdd i'w drafod. Gellwch droi ato'n i ateb cwestiynnau all fod yn ddibwys ond all fod yn holl-bwysig i'r un sy'n holi ar adeg arbennig yn ei hanes. Mae oriau o waith darllen a blynyddoedd o brofiad y tu ol i'r llyfryn hwn ac mae'i agwedd Gymreig yn iach. Mae'r bennod sy'n trafod geirfa a dywediadau defnyddiol wrth fagu plant yn adlewyrchu hyfforddiant a diddordeb Mary yn nhafodeithoedd a'i diddordeb yn yr iaith lafar ac o fudd mawr i'r rhai hynny ohonom sy'n dal i geisio cofio ymadroddiom a geirfa hysbys i'n mamagu wrth fagu'n plant.

## —MERCHED CAERDYDD

Gweithiodd yn ddygn i roi sglein ar "Glwb Mabon". I'r rhai ohonom a fagwyd cyn cyfnod yr ysgolion Cymraeg mae pob pecyn Clwb Mabon yn wyrth - yn stor ddihysbydd o gemau, jigsos, llyfrau, a chardaiu i ddiddori plant yng nghwmni eu mam neu yn yr Ysgol Feithrin. Trwy M.Y.M. mae Mary wedi gallu helpu mamau Cymru i roi oriau o hwyl i'w plant tra'n helaethu'u geirfa a'u gallu tu hwnt i bob disgwyliad.

Fe fu Mary yn byw yng Nghaerdydd ers dyddiau coleg. Yma mae hithau wedi magu'i theulu ac mae'n deg iawn i'r Dinesydd nodi ei chyfraniad clodwiw. Gwelodd yr angen a'i gyflenwi.

MAE UN O'R CYRSIAU diweddaraf ar gyfer yr Ulpan wedi ymddangos ar ol pedair blynedd o baratoi. Eleri Rogers, a arferai fod yn bennaeth Adran Gymraeg Ysgol Cathays cyn iddi gael ei theulu, sy wedi cynllunio'r cwrs ar ei newydd wedd,ac mae wedi'i brofi'n gwrs arbennig o lwyddiannus wrth ddysgu oedolion. Mae graddio'r gwaith yn synhwyrol, y sgyrsiau ar y tapiau yn dangos digon o hiwmor a'r iaith a'r ymadroddion yn fywiog ac yn arbennig o addas ar gyfer defnydd bob dydd. Mae Eleri wedi cael ysbrydoliaeth arbennig oddi wrth y mamau a fu ar ei chyrsiau wrth iddi lunio'r maes llafur.

Mae Bro'r Dinesydd ers yn agos i hanner canrif wedi bod ar flaen y gad ym mys dysgu ail-iaith. Mae'r awdurdod fel be pai wedi llaesu dywlo - athrawon y Gymraeg yn yr ysgolion cynradd yn cael eu hannog i fynd yn athrawon dosbarth ond mae cyrsiau tebyg i un Mrs Eleri Rogers yn dangos bod gwaith ysbrydoledig yn cael ei gyflawni yma o hyd. Chris Rees a Gwilym Roberts a'u cyrsiau fu'r allwedd yn dangos llwyddiant ysgubol dysgu Ulpan i'r genedl. Bu cwrs Ken Kane yn ddefnyddiol iawn hefyd a nawr dyma gwrs Eleri Rogers i'r mamau a'r tadau yn arbennig. Nid ar chwarae bach mae cwrs tebyg i hwn yn gweld golau ddydd.



## ATYNIADAU'R ŴYL

BUOST TI YN URDDGRUG llynedd? Na nid cam-sillafiad o Wyddgrug, ond y Babell Adloniant! Mae pawb a fu yno yn dal i gofio'r difyrwch a gaed. Gymaint oedd mwynhad rhai nes iddyn nhw gredu mai Urddgrug oedd yr Eisteddfod! Gobeithio y bydd Dinasbedain yn rhoi'r un ysbrydoliaeth i'r gynulleidfa ag y gwnaeth Urddgrug y llynedd.

Un peth sy'n siwr, mae'r rhaglen yn fywiog a difyr. Bydd awyrgylch Dinasbedain yn siwr o ddiasbedain yng nghlustiau eisteddfodwyr dros gyfnod yr Eisteddfod ac am y misoedd sy'n dilyn. Dyma rai o'r artistiaid fydd yno: Derec Brown a'r Racaradwyr, Treiglad Pherffaith, Huw Chiswell, Y Brodyr, Ceffyl Pren, Maffia Mr.Huws, a Bwchadanas.

Prif atyniad yr Ŵyl wrth gwrs bydd Pafiliwn yr Eisteddfod a leolir yn niddosrwydd y Ganolfan Chwaraeon Genedlaethol. Prin y gellid cael brafiach man i Ŵyl Genedlaethol ar ei hymweliad â'r Brifddinas. Bydd Gerddi Sophia yn Brifddinas o fewn Prifddinas rhwng Mai 28 a Mehefin 1 - Prifddinas Ieuenctid Cymru.

O'r 12,000 o gystadleuwyr a ddaw i'r Eisteddfod bydd tua 5,000 ohonynt yn ymddangos ar y llwyfan. Ond beth am fynd am sgowt ben bore i Ysgol Gyfun Fitzalan lle cynhelir y Rhagbrofion am 8.00 o'r gloch y bore?

Wedi bod yn y Rhagbrofion a'r Eisteddfod, peidiwch meddwl am funud mai dyna ddiwedd y dydd. Trefnwyd rhaglen lawn o gyngherddau a dramau. Cynhelir y prif gyngherddau yn Neuadd Ysblennydd Dewi Sant - Cyngerdd Ysgolion De Morgannwg, Pasiant Plant Ysgolion Caerdydd a'r Cylch, Cyngerdd Ryngwladol a'r Mesia. Yna ar y nos Sul bydd Cymanfa ganu i gloi'r wythnos.

Yn y Sherman bydd yr Opera Roc "Merch y Blodau" am dair noson yn olynol. Gwnewch yn siwr o'ch tocynnau'n gynnar - a chofiwch ddod ag hances boced rhag ofn.

Yn ystod yr un tridiau cynhelir profion terfynol y cystadleuthau dramau un act yn Arena'r Sherman. Dyma fydd y tro olaf y cynhelir y cystadleuthau yn yr Eisteddfod ei hun - bydd y cystadlu nesaf yn digwydd yng Ngwyl Ddrama Genedlaethol yr Urdd a gynhelir am y tro cyntaf ym Mrynamam rhwng 22 a 25 Hydref, 1986.

Ceir tocynnau a rhagor o fanylion o Swyddfa'r Eisteddfod, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Treganna, Caerdydd, CF1 9NT. Ffôn: Caerdydd 28341 neu 36201.

## BWTH RUTH

MAE MHEN I'N DAL i rilio ar ôl y neges teleffon a ddaeth o'r swyddfa. Menna Medi (fy llaw dde fi) yn dweud fod ffrind i mi wedi cysylltu gyda'r neges mod i'n fam bedydd i fachgen bach saith pwys a deg owns.

Dyna ffonio'r tŷ a chanfod fod y fam a'r babi'n gampus, y brawd mawr wedi gwirioni a'r tad ar ei ffordd i ddalthlu. Eistedd fyddai'r peth calla i mi wneud rwan medda fi wrthyf fy hun a chysidro o ddifrif beth mae hyn yn ei olygu.

Mae bod yn fam bedydd i nith yn un peth - mae bod yn fam bedydd i fabi ffrind yn beth arall. Beth yw fy nghyfrifoldeb i - ar wahan i gofio penblwydd y bychan a rhoi ei enw ar fy rhestr anrhegion Dolig? Tybed fydd yn rhaid i mi rannu yn y penderfyniadau a wneir drosto? Tybed ga'i dipyn o'i gwmni pan ddaw o'n hyn, nid jyst wrth ganu "Si Hei Lwli" iddo ar ddiwrnod ei fedyddio? Gobeithio'n wir - a tybed ddedith o fel bydd Sara (fy nith bedydd) yn ei ddweud weithiau: "Wyt ti'n fwy o berthyn i mi nag wyt ti i Miriam, (ei chwaer), ysti achos wyt ti'n fam bedydd hefyd i mi".

Gorchwyl bwysig mei ledi yr wythnos diwethaf oedd casglu diarhebion - mi ddarllenodd restr faith ohonyn nhw i mi dros y ffôn tua wyth o'r gloch rhyw fore, ac mi ychwanegais i ddwy at y rhestr: "Yr hen a ŵyr a'r ifainc a dybia", a'r llall "Gwaith pen di'r hen fyd yma i gyd" - tybed?

Dwy ar fin mynd allan i brynu anrheg i'r babi newydd - cylch serviette arian. Fedra'i ddim rhoi enw arno eto - does ganddo'r un, ac mae ei rieni wedi gofyn i mi ei ddewis. Fy ngorchwyl gyntaf yn y penderfynu mawr! Hwyl.


A ydych yn priodi eleni?
Ffotograffiaeth Creadigol gan
**GWENAN**
**CAERDYDD 732233**
Lluniau rhamantus sy'n creu atgofion melys.





YN Y dyddiau hyn o fasgynhyrchiant, annodd yw dod o hyd i ddillad unigryw heb dalu'r ddaear amdanynt. Hefyd, gwneir dillad i ffitio maint "cyfartalog" - tybed faint ohonom ni fenywod sydd â mesurau perffaith, sy'n cydymffurfio a meintiau 12, 14, 16 ac yn y blaen?

Heblaw am droi at y peiriant gwinio, neu wau eich hunain, ble mae modd cael hyd i ddillad, rhesymol eu pris, wedi'u gwneud yn arbennig ar eich cyfer? Y tro nesaf fyddwch am gael arpar arbennig ewch heibio Helen Buswell yn Heol Siarl.

Mewn gweithdy bychan un ystafell ar y llawr uchaf yn 50 Heol Siarl cwrddais â Helen. Yno mae hi'n cynhyrchu dillad o bob math ar ei pheiriant gwau, ac fe roddodd hanes ei gwaith i mi.

Cychwynodd weithio i'w hunan ar ôl graddio ym Manceinion - B.A. mewn Dylunio Gweadwaith ("Textile Design"). Pendefynodd ddod i Gaerdydd gan bod sawl un o'i ffrindiau coleg wedi ymgartrefu yn y ddinas, ac ar y cychwyn bu'n cydweithio â Val Cassidy. Arddangoswyd gwaith y ddwy ohonynt yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Tybed a oes rhai ohonoch yn cofio gweld eu gwaith yno? Ar ôl i Val Cassidy adael Caerdydd aeth Helen ymlaen gyda'i gwaith ac erbyn hyn mae'n cael archebion am ddillad o bob rhan o Brydain. Ni ellir prynu ei dillad mewn siop (heblaw am ychydig enghreifftiau mewn rhai siopiau crefft) gan ei bod yn credu mewn cadw costau yn rhesymol a chael cysylltiad personol gyda'i chwsmeriaid.



Mae'r broses o greu dilledyn yn cychwyn gyda'r cwsmer - mae Helen yn trafod cynlluniau, y math o edafedd a'r lliwiau addas ar gyfer y wisg, wedyn gwau samplau cyn cynllunio'r wisg derfynol a'i gwau ar y peiriant. Gyda'r amrywiaeth o edafedd sydd ar gael gellir creu pob math o weadeddau ac mae'r gwisgoedd yn adlewyrchu ei diddordeb mewn arbrofi gyda defnyddio edafedd o wahanol geinciau gyda'i gilydd. Edafedd o gotwm, gwlan, llien a sidan a ddefnyddir gan amlaf, ac mae'n sicrhau eu bod wedi'u golchi ar ôl eu gwau cyn iddynt gael eu gwerthu. Mae'n bosibl golchi'r dillad yma gyda llaw gartref, a rhoddir cyfarwyddiadau ynglŷn â hyn gyda'r dillad. Mae Helen yn defnyddio gwlan o Gymru a'r Malvinas ar gyfer eu gwaith, ond er bod safon yr edafedd o ffatrioedd Prydain yn gwella, mae'n parhau i gael amryw o'i edafedd o'r Eidal a Ffrainc gan eu bod o safon da ac ar gael mewn lliwiau deniadol.


Er nad yw'r broses o wau gyda'r peiriant yn cymryd llawer o amser mae Helen yn cymryd gofal manwl gyda'r gwaith llaw sydd ei angen i orffen y dillad. Hyn sy'n cymryd y rhan fwyaf o'r amser wrth greu gwisg. Defnyddir crosio man ar amryw o'i dillad ac fe hoffai gael help gan rywun crefftus i wneud peth o'r gwaith hyn.

Mae hi'n perthyn i gymdeithas yr International Wool Secretariat - sy'n rhoi y sumbol gwlan ar ddillad. I fod yn aelod rhaid iddi anfon esiamplau o'i gwaith yn rheolaidd iddynt, er mwyn sicrhau eu bod yn safonol.

Pan fo cwsmeriaid yn archebu dillad trwy'r post, gofynnir am fesurau cywir ganddynt ac anfonir esiamplau o wahanol edafedd er mwyn iddynt ddewis un ar gyfer eu gwisg.

Mae nifer o'i chwsmeriaid yn mynd ati hi gan nad ydynt yn gallu dod o hyd i ddillad "oddi ar y peg" sy'n eu ffitio'n dda. Mae'n amlwg ei bod yn eu bodloni gan eu bod yn dychwelyd ati dro ar ol tro. Ac nid rhywbeth i'r rhai sydd ag arian i'w losgi yw'r gwasanaeth a roir gan Helen - mae prisoedd ei dillad yn rhesymol ac yn cymharu'n ffafriol a phrisoedd dillad llai unigryw a geir yn siopau'r stryd fawr.

Mae ganddi enghreifftiau o'i gwaith yn y stiwdio gan ei bod yn gwneud rhai esiamplau o wisgoedd er mwyn dangos i gwsmeriaid. Ar hyn o bryd mae'n paratoi gwisgoedd ar gyfer yr haf a gaeaf nesaf - ac mae lliwiau diddorol iawn i'n plesio. Os ydych am gael mwy o wybodaeth am ei gwaith rhowch alwad ffôn iddi cyn galw i'w gweld - Caerdydd 374862.





DATHLU CANMLWYDDIANT MINNY ST.

YM MEHEFIN 1884 dechreuodd yr achos, ond am wahanol resymau penderfynwyd cysylltu'r canmlwyddiant a dyddiad corffori'r Eglwys ar 18 Chwefror 1885.

Cafwyd oedfa Gymun ar fore Sul Chwefror 10, pryd y derbyniwyd pedwar ar bymtheg o bobl ifainc yn gyflawn aelodau. Golyga hardd a hapus oedd gweld y Gweinidog, y Parch.W.Eifion Powell yn ysgwyd llaw a phob un o'r aelodau newydd yn y set fawr.

Prynhawn Llun canlynol gwahoddwyd chwiorydd eglwysi Cymraeg y ddinas i De'r Dathlu. Er gwaethaf y tywydd daeth nifer fawr ynghyd i gydnabod cyfarchion o'r gwahanol eglwysi. Tro'r Gymdeithas Ddiwyllainnol oedd hi nos Fercher, ac roedd yn noson i'w chofio. Noson Fictorianaidd i gyflwyno diwylliant cyfnod cychwyn Minny St.

Bore ail Sul y dathlu, yr 17eg, traddodwyd Pregeth y Dathlu gan y Gweinidog, pregeth oedd yn hollol bwrpasol i'r achlysur. Yn ystod y gwasanaeth canwyd emynau a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer y dathlu gan Mr.a Mrs.Eifion Powell. Canwyd emyn Mrs.Powell ar don Minny St., o eiddo Mr.Alun Davies.

Gwasanaeth y Plant a'r Bobl ifainc oedd oedfa'r hwyr. Bu bron i gant o unigolion gymryd rhan yn ddarllenwyr, yn gantorion yn y cor a'r partion, ac yn offerynwyr yn y gerddorfa. roedd hi'n oedfa a adlewyrcha holl weithgarwch yr Ysgol Sul, ac yn addo'n dda ar ddechrau ail ganrif yr Eglwys.

Cyfarfod Cyhoeddus a gafwyd ar nos Lun Chwefror 18, a hyfryd oedd gweld cymaint o gyfeillion o eglwysi Cymraeg Caerdydd ym Minny St. y noson honno. Cyflwynwyd rhaglen nodwedd wedi'i seilio ar hanes yr Eglwys, rhaglen a drefnwyd gan y Parch. a Mrs. Powell. Daeth y noson gofiadwy hon a'r dathliadau i ben mewn modd teilwng a phwrpasol.

Yn ystod yr wythnos trefnwyd arddangosfa yn y festri o luniau, rhaglenni ac eitemau'n gysylltiedig a hanes yr Eglwys. Hefyd, i gofio'r achlysur archebwyd plat a mwg i bob un o 130 o blant yr Eglwys yn y cyfarfod nos Sul, Chwefror 17.

COLOFN YR HARPWN

ELENI Y DETHLIR can mlwyddiant achos yr Annibynnwyr yng Nghapel Minny St. Croeso felly i'r golofn farddol fisol hon i fugail newydd yr eglwys honno, Y Parchedig Eifion Powell. Dyma gerdd a ysgrifennodd ar gyfer oedfa ddathlu'r canmlwyddiant, a gynhaliwyd ar nos Lun Chwefror 18, ac a adroddwyd yn yr oedfa honno gan Miss Eleri Morgan. Diolch iddo am ei barodrwydd i gyfrannu, ac am gerdd o fyfyrdod positif, un deilwng o'r achlysur. Edrychwn ymlaen at weld mwy o'i waith yn y tudalennau hyn yn y dyfodol.

Y CAN MLYNEDD HYN

Yma, mewn man
a oedd yn bwynt tyfiant
yn y ddinas hon ganrif yn ôl,
fe fwriodd ryw bobol,
a oedd yn gynefin â gwylio
hwyliau llongau'r Gorllewin
yn nofio ar donnau glas
atgofion eu mebyd,
bedwar angor o'r starn,
yn gerrig sylfaen yn y bedair congl,
i ddiogelu llong eu ffydd
ynghanol ymchwydd llwydaidd
bywyd y ddinas ag iddi sylfaen masnachol.

Lledodd y llanw materol
o Laneirwg i Lanfihangel-Ar-Elai,
gan orchuddio toeau y tai,
a'r myrdd ffyrdd,
â gofal a gofidiau cyfarwydd
y dynion a'r merched
sy'n cynnal eu busnes, yn ennill
eu bywoliaeth, yn profi'u llawenydd
ac yn dioddef eu poen,
dan gysgod bygythiol
y gyfundrefn seciwlaraidd.

Ni fedyddiwyd mo'r llong erioed
ag enw Beiblaidd,
ond bod ei chadwyni'n dynn
wrth byst stryd un o'r saith chwaer.
Ac yma, o dan gysgod yr esgynfan
lle y cyhoeddwyd gorchmynion
cabden mawr eu hiachawdwriaeth,
bu'r criw yn sgowrio'r dec yn lân
o oes i oes,
ac yn codi hwyl,
pan droai'r awel o'u plaid
ar y Sul,
i forio i'r tir pell,
lle mae tangnefedd yn tyfu
ar gangau pren bywyd,
gan ddychwel gartref
a'r howld yn llawn o farsiandiaeth;
ffrwythau'r wlad, pomgranadau'r tir,
a'r balm sy'n tyfu yng Ngilead.

A ninnau heno
yn cofio a chanmol
ymdrech a dewrder y tadau,
hyderwn fod gennym,
o dan hatsiau'n litwrgiau,
lwyth diogel o'r olew
sy'n cynhesu aelwydydd cred,
ac yn cynnau'r ymddiriedaeth honno
a fwriodd y disgyblion ofnus
yng ngallu'r meistr twymgalon
a gerddodd atynt dros donnau'r digofaint,
gan lywio'r llong
i rwyfo canrifoedd
y dyfodol.

W.EIFION POWELL.

# TAFOD Y DDRAIG

WHEN WAS WALES? A History of the Welsh Gwyn A.Williams Black Raven Press £12.95 Penguin Books £3.95.

YN YSTOD Y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, cyhoeddwyd toreth o lyfrau ar agweddau ar hanes Cymru, yn arbennig cyfrolau Jan Morris ar fytholeg a hanes Cymru - cyfrolau synhwyrus, rhamantaidd yn ceisio cnewyllyn yr hyn yw Cymro; cyfrol Dai Smith, "Wales! Wales?" ac yn awr chwaer gyfrolau Wynford Vaughan Thomas a Gwyn Williams, sy'n cyd-redeg â'r gyfres deledu, "The Dragon Has Two Tongues". Dyma gynnyrch llenyddol uniongyrchol y cyfwng a wynebai'r Cymry drannoeth Refferendwm 1979 (a diddorol yw sylwi nad oes yr un llenor na hanesydd Cymraeg ei iaith wedi ceisio dod i'r afael â'r hunanwadiad mawr hwnnw, ag eithrio 'Ianws', bardd gwrthodedig Eisteddfod Caernarfon).

Mynegodd llawer eu amheuon ynglŷn â'r gyfres deledu, ac yn sicr, mae'n anodd crynhoi holl gymlethdodau hanes Cymru i ychydig dros chwe awr o deledu. Bwriwyd amheuaeth ar ddyfnder Wynford Vaughan Thomas fel hanesydd hefyd, a diddorol oedd adolygiad Raymond Williams ar ei gyfrol yn ddiweddar, a bwysleisiai anghytbwysedd gweledigaeth hanesyddol a allai grynhoi holl hanes Cymru yn y ganrif hon i brin pedair ar ddeg o dudalennau.

Nid oes amheuaeth am gyfrol Gwyn A.Williams fodd bynnag. Mae yma ymchwil o'r newydd i hanes Cymru o'r cychwyniadau cyntaf hyd at etholiad trychinebus 1983. Dyma gyfrol sy'n dod i'r afael â holl fythau gwrthebol y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg, yr academyddion a'r 'werin', a hynny a thrychineb 1979 a 1983 drwy'r adeg yn y cof.


Wrth gwrs bod Gwyn Williams yn edrych ar hanes o safbwynt arbennig, safbwynt sy'n gweld y Cymry'n llithro'n anorfod bron, o gyfwng i gyfwng, a Lloegr drwy'r adeg yn manteisio ac yn dwysau ar y cyfyngderau hyn. Mae yma gydymdeimlo agored â'r dosbarthiadau isaf mewn cymdeithas, a theifl yr awdur oleuni cyson ar y modd yr oedd y dosbarthiadau llywodraethol, boed dywysogion, uchelwyr, neu Ryddfrydwyr y ganrif ddiwethaf, dro ar ôl tro yn cyfaddawdu â'r dosbarthiadau llywodraethol yn Lloegr er mwyn cadw'u hegemoni'n ddiogel. Mae gan pob hanesydd ei safbwynt, ac o'i wisgo ar ei lawes, o leiaf mae'r gynulleidfa yn gwybod nad yw'n ceisio ei thwyllo.

Mae'n amhosibl rhestru'n fanwl holl gryfderau'r gyfrol mewn adolygiad byr. Un amlwg yw bod yr awdur yn rhoi llais o'r diwedd i'r miloedd o Gymry anllythrennog ar hyd y canrifoedd - tinceriaid a phuteiniaid Cymraeg ardal 'China' ym Merthyr; caethion mud y tywysogion ffiwdalaidd, a'r Cymry di-Gymraeg a afradwyd o'u hanes a'u diwylliant yn sgil poilisiau addysgol ac economaidd llywodraeth Lloegr, ynghyd â'u cynghreiriaid yng Nghymru.

Tywyll yw llinellau olaf y gyfrol, a'r gerdd o waith R.S.Thomas, "The Welsh Hill Country", yn ddyfyniad clo, ond rhydd y gyfrol ei hun obaith, yn y modd y dengys i'r Cymry ail- ddiffinio ac ail greu eu hunain yn wyneb pob cyfyngder. Dyma agwedd arall ar y 'dewis' a roddodd Saunders Lewis iddynt - dro ar ôl tro. Rhydd y gyfrol hon gyfle inni eto ail-ddiffinio ac ail-sefydlu'n hunain, a hynny yn y presennol, nid yng ngoleuni rhyw 'draddodiad oesol'. Brysied cyfrol yn yr iaith Gymraeg sy mor dreiddgar a hunan gyffesgar â'r gampwaith hon o waith Gwyn Williams.

IWAN LLWYD WILLIAMS.

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.
Ffôn: Caerdydd 43367



GWERSI PIANO
YN EICH CARTREFI
gan athrawes raddedig.

Pob safon.
Pris rhesymol.

Ffon: Caerdydd 560763



# CICIO RYGBI

"YLI", MEDDA aelod blaenllaw o'r Panel Golygyddol wrtha' i pan oedd Y Dinesydd dwytha ar fin mynd i'w wely, "Ma'r petha peldroed 'ma'n mynd yn boring fis ar ôl mis ar ôl mis. Ma' ishio dipyn bach o newid ar y busnas chwaraeon wsti. 'Sgwenna am rygbi tro nesa, reit!"

"Rygbi", medda finna, "yn lle mae nhw'n chwarae'r gêm honno tybed?" A dyma finna yn cofio yn sydyn fod 'na gae mawr yng nghanol y ddinas, a chae llai wrth ei ymyl, hefo postia gôl hefo cyrn arnyn nhw y naill ochr i'r maes, a bod y trawstbren y tu hwnt i gyrraedd hyd yn oed y rhai talaf o'r golgeidwaid.

Yn y cae mwyaf o'r ddau mae nhw'n tyfu gwellt glas am dri chant chwe deg ac un o ddyddiau'r flwyddyn (362 mewn blwyddyn naid). Ar y pedwar diwrnod arall sy'n weddill mae nhw'n llenwi'r lle hefo pobl o bob math, pawb yn gwthio a stwffio a straffaglio am y gorau i gael gweld eu tim, pwy bynnag ydi rheini, yn chwysu a cwffio, yn pwffian ac yn paffio, yn ôl ac ymlaen o un pen i'r cae i'r llall, weithiau ar hydtraws, ar ôl sosej o bêl na fedr y rhan fwyaf ohonynt eu dal heb sôn am ei chicio. Bob hyn a hyn mae nhw'n stopio rhedeg ac yn cydio yn ei gilydd yn dyn, ac yn dechrau gwthio eu gwrthwynebwyr. Yn wir, o bell mae'n edrach fod pen ambell un ym mhen ôl y gwr sydd o'i flaen o - sdim rhyfadd fod golwg ar glustia rhai ohonynt. Tybed bydd na newid yn y rheola os bydd y clefyd diweddara' 'ma yn cydio'n y gwryw ac yn ymledu - hynny yw os na fydd y glas wedi neidio'i mewn cyn hynny gyda chyhuddiad o "aiding and abetting"!

Dro arall mi sylwais fod y gwŷr cyhyrog yma yn ffurfio dwy linell gyferbyn â'i gilydd, ac yn taflu'r bêl i'w canol nhw wedyn - a dyma finna yn cael fy nhywys yn ôl i'r ysgol bach, ysgol y babis a chofio fel y byddem ninnau'r plantos yn mwynhau gwneud yr un math o beth bryd hynny. Ond diawl, 'ma 'na sens ym mhob dim, babis oedda ni - ydi rhaid i'r bois rybgi 'ma gael rest bach mor aml i ail fyw eu plentyndod yn ystod y gêm?

A sôn am y sgôr, mae'r ffigurau yn troi ac yn cynyddu mor aml â gwerth y ddoler y dyddiau 'ma. Yn lle cael un gôl wrth sgorio, ma' rhain yn cael pedwar pwynt am fethu cael y bêl rhwng y postia gôl hyd yn oed, ac os ydy nhw'n cicio'r bêl dros y trawsbren, mi ga' nhw ddau neu dri pwynt ychwanegol, dibynnu sut mae'r dyfarnwr yn teimlo ar y pryd.

Rhyfedd o fyd yn wir, ac ar bob pnawn Sadwrn yn ystod y tymor, ma' 'na drin a thrafod y busnas ar y radio, ar y teledu, weithiau mae hyd yn oed rhaglen "Y Maes Chwarae" yn rhoi mymryn o sylw iddynt, ac mae'r "papur cenedlaethol" yn methio ffendio digon o dudalennau i sôn amdanynt.

O mor braf yn ystod yr wythnosau diwethaf 'ma oedd cael clywed am ohirio dwy gêm ryngwladol yn olynol a pheidio â gorfod dioddef y trafod bondigrybwyll yma am haediant hwn a'r llall i gael cap dros ei wlad, neu am fethiant y tim cenedlaethol i sgorio cais ers hydoedd a hynny oherwydd cysylltiadau dan din Yr Undeb hefo gwlad ddiniwed De Affrica. Esgob (annwyl) Tutu, does dim o'i le mewn meithrin cysylltiadau o'r fath! Tybed Tobias?

Mae gen i go' fod yna dim rygbi o Gymry Cymraeg yn chwarae yn ein prifddinas ninnau hefyd flynyddoedd maith yn ôl. Beth ddaeth ohonynt bellach? Wrth gwrs mi gofiaf rwan - ydach chi ddim yn cofio i ddyfarnwr ddweud wrth y clwb na fuasent yn cael siarad Cymraeg ar y parc rhyw bnawn Sadwrn, a dyma hwythau, gyhyrog wŷr dewr o argyhoeddiad dwfn yn cytuno fel wyn bach heb hyd yn oed frefu ynglŷn â'r mater!

Os oes 'na ddarllenwyr sy'n cofio Clwb Rygbi Cymry Caerdydd, gyrrwch air atom - byddai pwt mewn du a gwyn yn fodd i haneswyr y dyfodol i ddeall ychydig am eich llwfdra.

Peldroed y tro nesaf, Panel Golygyddol?

RHODRI GWYN JONES, ger Clwb Rygbi Pentyrch.

---


YN EISIAU: RHAN AMSER

CLERC ARIANNOL

Am wybodaeth pellach cysyllter a:

Cyfarwyddwr,
Mudiad Ysgolion Meithrin,
10 Park Grove,
CAERDYDD,
CF1 3BN.

DYSGWR yn awyddus i ymuno a chwmni drama Gymraeg amatur, naill ai fel chwareuwr neu cynorthwydd llwyfan (profiad goleuo, ac ati) Ffoniwch: Y Bontfaen (913) 3058.



# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES: Mi fydd hi'n fis hynod o brysur yn enwedig ar ôl i'r haul ddod i'ch arwydd chi. Mae hwn yn gyfnod ardderchog i osod seiliau'r flwyddyn sydd i ddod.
TAURUS: Bydd y manion bach annifyr a fu'n eich poeni ers tro yn syrthio i'w lle nawr, a bydd gennych ddigon o ynni i ymgodymu â nhw.
GEMINI: Os ydych chi'n teimlo braidd yn isel fyddwch chi ddim i lawr am hir iawn - mis ardderchog i gymdeithasu a gweld hen ffrindiau.
CANCER: Dyma'r amser gorau i ofyn am godiad ariannol neu am swydd well, yn enwedig tua diwedd y mis. Pob lwc!
LEO: Os nad ydych wedi trefnu'ch gwyliau eto dyma'r amser gorau i freuddwydio am draethau melyn o dan haul crasboeth a gwneud rhywbeth yn ei gylch. Efallai daw lwc i chi yn rhinwedd eich swydd.
VIRGO: Cyfnod campus i ymchwilio a thwrio i'r gorffennol. Mae hwn yn fis da i fuddsoddi'ch arian hefyd - dylai wneud elw anrhydeddus i chi.
LIBRA: O'r diwedd mi fydd eich gwaith caled yn dwyn ffrwyth. Os ydych yn meddwl am briodi dyma'r feri mis i wneud y trefniadau. Gwyn eich byd!
SCORPIO: Cyfnod creadigol ac un o waith caled fydd yn dwyn ffrwyth maes o law, ond i chi ddyfalbarhau. Gellwch ddisgwyl rhwystrau a rhwystredigaethau ar y 9fed.
SAGITTARIUS: Dyma beth yw mis creadigol, ond byddwch yn barod am ddigwyddiadau annisgwyl - cymrwch ofal rhag bod yn fyrbwyll tua diwedd y mis.
CAPRICORN: Cyfnod ardderchog i ddechrau "spring clinio" - paentio ac adnewyddu'r tŷ - neu symud hyd yn oed - pam lai? Byddai codi'r gwreiddiau yn gwneud byd o les i chi!
AQUARIUS: Mae'r cyfnod lwcus a ddechreuodd fis diwetha yn dal mewn grym - dylech elwa'n ariannol nawr. Cyfnod gwych i gyfathrebu ac i deithio.
PISCES: Blwyddyn newydd dda! Mae blwyddyn astrolegol newydd wedi dechrau i chi ac yn argoeli'n ardderchog. Dylech wneud digon o arian a chael newydd annisgwyl yn y gwaith.



# Y CROESAIR - Ap Lewsyn RHIF 50



AR DRAWS:

1. Pla Hamelin gynt. (5)
4. Trwy rym, y gaseg a ymrŷdd yn llwyr i'w gwaith ... (9)
9. ... ond nid yw'r grym hwn yn bosibl iddi. (4,5)
10. "Pechadur yw __ ___" (T.W. Bethesda'r Fro) (2,3)
11. Ar dân dros ei ddosbarth diwygiedig. (5)
12. Un sy'n llefaru â thafodau dynion (ac angylion?). (3-6)
13. Mae peryglon mawr mewn llithro oedau i boced yn slei fach. (7)
15. Anfarwol! (7)
18. Defnyddia cwplws ... ond nid i orffen ei waith yn y Rhondda. (7)
20. Byddid yn defnyddio. (7)
21. Cyn ysgafned y mae'n cymryd y peth! (3,6)
23. Geilwad boreol. (5)
25. Cynheuaf i'r gŵr â'i drefn yn iawn. (5)
26. Cynhyrfus yw'r un a dyf o gyff od Eric. (9)
27. Lleoliad y frwydr fawr olaf, medd Ioan. (9)
28. Corgi yn cael ei ddienyddio? (5)

I LAWR:

1. Cysyllter â phentre yng Nghlwyd wrth ddeialu rif call Dan. (7,1,1)
2. Mae amryw un ar hyd Clawdd Offa. (5)
3. Pwy fase'n meddwl bod clogwyn a bwlch yn ennyn ymddiried? (9)
4. Newid y siwt, neu newid i siwtio? (7)
5. Mae tipyn o ddadl am y marina, h.y. am y gychodle. Gellir osgoi hyn o ddatblygu'r lle yn rheolaidd. (7)
6. Statws. (5)
7. Prid. (9)
8. Stêm. (5)
14. Y pentre sydd i gael amser mwy annifyr na Sodom. (9)
16. Hen dorrwr cerrig. (5,6)
17. "... a thi a'i cei ar ôl llawer o ddyddiau." Dyna yw addewid y bocs bach. (4-2-3)
19. Creaduriaid o Ganada yw'r llostlydanod. (7)
20. Symffoni mwyaf adnabyddus Schubert. (7)
21. Diffyg anadl y famog. (5)
22. Planhigyn a geir o'r wig. (5)
24. O raid y defnyddiwn y cyfrwng. (5)

DATRYSIAD CROESAIR RHIF 49.
AR DRAWS: 4.Ymdebygu; 8.Ychwaith; 9.Niagara; 10.Ysgafala; 11.Hendre; 12.Corganau; 13.Robin Goch; 16.Cernodio; 19.Lol-botes; 21.Gwesty; 23.Ieithegydd; 24.Brysiog; 25.Ieuanc; 26.Anfodlon.
I LAWR: 1.Achosion; 2.Daeargryn; 3.Ithfaen; 4.Yn naturiol ddigon; 5.Diharebu; 6.Brain; 7.Gwawrio; 14.Nicodemus; 15.Adfywiol; 17.Enwebwn; 18.Lle mynno; 20.Leicio; 22.Swyno.

CYSTADLEUAETH RHIF 49
Derbyniwyd saith datrysiad, ond pump yn unig ohonynt oedd yn hollol gywir. Yr enw a dynnwyd o'r het oedd Gunston Jones, 3 Cornborough Lodge, Heol Tŷ Gwyn, Cyncoed. Bydd tocyn llyfrau Cymraeg am £5 yn ei gyrraedd maes o law. (Gyda llaw, croeso 'nôl i Gaerdydd Gunston. Gobeithio y cawn tipyn o'ch cwmni yng nghornel y Croesair yn y dyfodol.)
Y datryswyr cywir eraill oedd: B.H., Cyncoed; J.D.L.Trelai; Julia Lloyd, Glan-y-Llyn; a T.Jones, Pentwyn.

---

RHIF 50:
Anfoned y datryswyr eu hymdrechion erbyn Mawrth 20fed; (enw neu ffugenw ar ymyl y Croesair) at Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Caerdydd.

holl lyfrau Cymru ynghanol y dref
Oriel
Siop Lyfrau Cyngor Celfyddydau Cymru, 53 Heol Siarl, Caerdydd Ffôn: 395548
Catalogau ar gael

CÔR EISTEDDFOD YR URDD 1985

Y MESEIA
Mehefin 1 - Neuadd Dewi Sant

Mae Côr yr Eisteddfod yn agored i gantorion o bob oedran. Cynhelir yr ymarferion ar nos Fawrth yn Neuadd Gyngerdd Coleg y Brifysgol, Heol Corbett am 7.30. Mae croeso i gantorion ymuno a'r Côr o dan arweiniad Alun Guy, a mwynhau'r profiad o ganu oratorio enwocaf y byd ar lwyfan Neuadd Dewi Sant ar Fehefin 1.
Dewch â'ch copiau o'r "Meseia" efo chi ar Nos fawrth.

---

DARLUN: Daeth llu o Gyfeillion y Coleg Cerdd a Drama ynghyd nos Iau, Chwefror 14, i anrhegu Dr. Raymond Edwards wedi ei ymddeoliad fel Pennaeth y Coleg yr haf diwethaf. Cyflwynwyd iddo ddarlun ohono'i hyn wedi ei baentio gan yr arlunydd Cymreig, John Elwyn, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Yn ei dro, trosglwyddodd Dr.Edwards y darlun i Gadeirydd y Rheolwŷr, y Cyng. Emyr Currie-Jones, i'w gadw a'i arddangos yng nghyntedd y Coleg. Diolchwyd i Dr.Edwards am ei waith a'i ysbrydoliaeth gan yr Athro Lyn Evans, Dr.J.Bradley Jones a'r Cynghorydd Currie-Jones, a chyflwynwyd tusw o flodau i Mrs.June Edwards gan Beryl Hall ar ran y Cyfeillion.

# NEWYDDION-NEWYDDION- NEWYDDION-NEWYDDI

GENI: Llongyfarchiadau i John a Carol Hardy ar enedigaeth eu hail fab Geraint Wyn ar Chwefror 5.

GWELLHAD BUAN: Chwith mawr gan dim Y Dinesydd oedd deall bod Raymond Edwards, un o gefnogwyr mwya brwd y papur, wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Croeso mawr adra, ac edrychwn ymlaen at gael ei gwmni yn yn ein pwyllgorau cyn bo hir iawn. Dyna hefyd yw dymuniad holl ddarllenwyr Y Dinesydd.

DYRCHAFIAD: Llawenydd i bawb sy'n ei adnabod yw llongyfarch Huw Hall Williams ar gael ei benodi ar staff Ysgol Cwm Rhymni. Llongyfarchiadau hefyd i'w wraig Leonie ar ei phenodiad yn athrawes cerdd ysgol iau Howells fydd yn agor fis Medi. Edrychwn ymlaen at ei groesawu'r ddau i Gaerdydd yn ystod yr haf.

YMWELD: Hyfryd oedd gweld Rhiannon ac Alun Evans, nawr o Dregarth, ond a fu'n byw am flynyddoedd yng Nghaerdydd, yn canu ym Mhedwarawd y Wenallt yn nathliadau Minny Street. Ar hyn o bryd mae'r ddau lan i'w clustiau yn trefnu ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, Dyffryn Ogwen, 1986. Bydd Rhiannon yn beirniadu yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd eleni.

TEITHIO: Llongyfarchiadau i Martin Hopwood ar gael ei ddewis yn un o bump gan Glwb Rotari Cymru i fynd ar daith chwe wythnos i'r Unol Daleithiau. Bwriad Martin yw ymweld â thalaith Montana i weld sut fywyd sydd yno. Edrychwn ymlaen at gael ei ymateb i'r profiad diddorol yma.

DATHLU: Yn bedwar ugain oed ym mis Chwefror oedd yr ysgrifennwr enwog o'r Eglwys Newydd, y Dr.Glyn Jones. Penblwydd Hapus!


GADAEL: Dymuniadau da yn eu cartref newydd yn Crawley i Nan a Neville Davies, gynt o Coryton Rise, Caerdydd. Bu Nan yn dysgu am gyfnod yn ysgol Bryntaf.

SIECIAU: Ydych chi'n dal i gael trafferth gyda'ch sieciau? Ewch at Heulwen yn "County Casuals" yn siop David Morgan. Bydd hi'n hapus i dderbyn eich siec Cymraeg.

DIRPRWYO: Llongyfarchiadau i Heddwyn Richards o Radur ar ei benodi'n Ddirprwy Brifathro'r Brifysgol Agored yng Nghymru. Mae Mr.Richards ar bwyllgor Cymdeithas Gymraeg Radur a'r Fro ac yn aelod selog o Ddosbarth Cadw'n Heini Glantaf.


Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru

**CAERDYDD a'r Cylch 1985**



## STIWARDIO

**28 Mai - 1 Mehefin 1985**

At:
Yr Ysgrifenyddes
Y Pwyllgor Stiwardio
33, Heol y Bryn,
Rhiwbina,
Caerdydd

ENW: ..........

CYFEIRIAD: ..........

..........

..........

FFÔN: ..........

OED: 16 - 25 / dros 25 (dileer yr amherthnasol)

Annwyl Gyfaill,

Byddaf yn barod i weithredu fel Stiward ar faes yr Eisteddfod ar y dyddiau a'r amserau a ganlyn. (Rhodder X yn y blwch/blychau priodol)

Ceidw'r Pwyllgor yr hawl i addasu'r amserlen isod ond hysbysir pob stiward o leiaf wythnos cyn yr Eisteddfod am unrhyw newidiadau a effeithia arno ef.

| DYDD | 8-11a.m. | 10.30a.m.-2p.m. | 2-6p.m. | 6-10p.m. | Unrhyw amser |
|---|---|---|---|---|---|
| MAWRTH 28 Mai | | | | | |
| MERCHER 29 MAI | | | | | |
| IAU 30 MAI | | | | | |
| GWENER 31 Mai | | | | | |
| SADWRN 1 Mehefin | | | | | |

Dychweler i'r cyfeiriad uchod cyn gynted ag y bo modd, ac erbyn 1 Ebrill 1985 fan bellaf os gwelwch yn dda.



NESAWCH AT NESTA

ARBENIGWRIAG TRIN GWALLT
YN BROFIADOL AC A DDAW
I'CH CARTRE.

"Pa ots am yr eira,
pa ots am y glaw,
Daw Nesta i'ch tendio
beth bynnag a ddaw".

Cysyllter ar Caerdydd 751418
neu 51 Heath Park Ave.,
Mynydd Bychan.



## Ymchwilydd - Rhaglenni Ysgafn

Mae angen Ymchwilydd ar HTV Cymru i weithio ar raglenni adloniant ysgafn, comediau sefyllfa, rhaglenni cerdd, a rhaglenni plant. Dylai'r ymgeiswyr fod a phrofiad, neu o leiaf diddordeb byw, yn y mathau yma o raglenni, ac yn barod i ymuno a thim bywiog a gweithgar yn sefydlog yng Nghaerdydd.

Cyflog (o dan hyfforddiant): £6,462 y flwyddyn. (Wedi gorffen hyfforddiant, bydd y cyflog rhwng £9,456 a £12,932 gan gynnwys atodiadau lleol).

Y swydd i gydymffurfio a'r cytundeb rhwng y cwmni ag undeb ACTT.

Dylai ymgeiswyr, mab neu ferch, anfon am ffurflen gais gan amgau amlen hunan-gyfeiriedig gan nodi cyfeirnod DIN/435 at: Y Rheolwr Staffio, HTV Cyfyngedig, Y Ganolfan Deledu, Caerdydd CF5 6XJ.

YR YDYM YN GYFLOGWYR CYFLE CYFARTAL

HTV